Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar ddiweddariadau i'n polisi sancsiynau

29 Mai 2025 a 1 Medi 2025

Darganfod Mwy: [www.hcpc-uk.org/consultations/](http://www.hcpc-uk.org/consultations/)

# Cynnwys


1. Trosolwg 3

2. Cefndir 7

3. Adolygu'r polisi 8

4. Newidiadau arfathedig 9

5. Cwestyinau ymgynghori 16

6. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad 19

7. Y Camau Nesaf 20

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen ddogfen hon yn ymgynghori ynglŷn â chynnig Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i ddiweddaru'r canllawiau a roddwn i baneli pwyllgorau ymarfer (paneli) sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â chanlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer (FTP). Mae'r ddogfen ganllaw hon, y cyfeirir ati fel ein polisi sancsiynau, yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i benderfynu canlyniadau achosion FTP.

Mae'r polisi sancsiynau yn gosod yr egwyddorion y dylai paneli eu hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, sy'n briodol mewn achosion FTP. Y bwriad yw iddo gynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau teg, cyson a thryloyw, gan sicrhau bod canlyniadau rheoleiddiol yn cynnal hyder y cyhoedd a safonau proffesiynol. Y tro diwethaf i ni ddiweddaru'r ddogfen oedd 2019.

Byddwn yn adolygu ein holl bolisïau a safonau o dro i dro er mwyn sicrhau nad ydynt yn dyddio, a'u bod yn parhau'n eglur ac yn gyson â'r ymarferion rheoleiddio gorau. Bwriad y newidiadau a gynigiwn ydy gwella eglurder i baneli wrth iddynt osod sancsiynau, cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau teg a chymesur mewn achosion FTP, adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol diweddar ac adborth gan randdeiliaid allweddol, cryfhau diogelwch y cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth yn y broses rheoleiddio.

Diben y newidiadau a gynigiwn ydy:

1. **Adlewyrchu cyfraith achosion diweddar** – mae hyn yn sicrhau bod gan y paneli ddealltwriaeth fwy eglur o'r canllawiau mewn perthynas â gorchmynion gwahardd dros dro a'r modd y'u gweithredir.
2. **Diweddaru canllawiau ynglŷn â gorchmynion interim** – mae hyn yn gwella tryloywder ac eglurdeb ynglŷn â'r ffordd y dylai'n paneli ystyried gorchmynion interim a allai fod wedi'u cyflwyno cyn gwrandawiad o sylwedd.
3. **Gwneud ein canllawiau am 'ymddiheuriad' yn eglur** – mae hyn yn cynnig canllawiau manylach i baneli ynglŷn â sut i asesu ymddiheuriadau a wneir gan unigolion cofrestredig pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.
4. **Gwneud yr adran 'diarddel' yn eglur** – mae hyn yn ei gwneud yn eglur bod rhai ymddygiadau mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig.
5. **Ychwanegu cynnwys am 'asesu difrifoldeb a bai'** – mae hyn yn gwella tryloywder ac atebolrwydd drwy amlinellu'n eglur beth yw'r amgylchiadau gwaethygu a'r amgylchiadau lliniarol y dylai paneli eu hystyried, er mwyn helpu i gefnogi penderfyniadau cyson a chymesur.
6. **Ehangu'r canllawiau am wahaniaethu** – mae hyn yn ei gwneud yn eglur bod pob math o wahaniaethu yn annerbyniol ac yn darparu canllawiau ynglŷn â'r ffactorau y dylai paneli eu hystyried wrth ymdrin â hyn.

7. **Ehangu'r canllawiau am anonestrwydd** – mae hyn yn ei gwneud yn haws asesu sut gallai gweithredoedd anonest effeithio ar ymddiriedaeth neu beri niwed, gan arwain at benderfyniadau mwy cyson ar sail mwy o wybodaeth mewn achosion difrifol.
8. **Ychwanegu camymddygiad â chymhelliant rhywiol** – mae hyn yn darparu canllawiau ychwanegol er mwyn sicrhau bod paneli, yn ogystal ag ystyried camymddygiad rhywiol, yn asesu cyflwr meddwl a bwriad yr unigolyn cofrestredig mewn achosion FTP lle gallai'r ymddygiad fod â chymhelliant rhywiol.
9. **Cyflwyno adran newydd am 'ffiniau proffesiynol'** – mae hyn yn sicrhau y caiff pryderon ynglŷn â chynnal perthnasoedd proffesiynol sylw priodol.
10. **Gwneud newidiadau strwythurol a golygyddol** – mae hyn yn sicrhau bod y canllawiau'n eglur ac yn hawdd eu darllen er mwyn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau cyson, cymesur ar sail rhesymeg gadarn gan y paneli.

Mae fersiwn ddrafft o'r polisi sancsiynau diwygiedig arfaethedig ar gael yma.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi helpu i ffurfio'r cynigion drwy ein gweithgaredd ymgysylltu cyn ymgynghori. Mae hynny wedi darparu gwybodaeth a dealltwriaeth gwerthfawr sydd wedi cyfrannu at y newidiadau arfaethedig i'r polisi sancsiynau. Mae ein gwaith cyn ymgynghori wedi bod yn gyfraniad hollbwysig at ein dealltwriaeth o anghenion a safbwyntiau unigolion cofrestredig, cyrff proffesiynol, cyflogwyr, sefydliadau addysg a'r cyhoedd.

Yn unol â Gorchymyn Proffesiynau Iechyd (2001), sy'n ei gwneud yn ofynnol i HCPC ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud newidiadau i'w bolisïau rheoleiddio, mae'r ddogfen hon yn rhoi hysbysiad o'n bwriad i wneud newidiadau i'r polisi sancsiynau. Rydym yn annog unrhyw randdeiliaid ac unigolion sydd â diddordeb i ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau y byddwn yn eu derbyn ac yn egluro'r penderfyniadau a wnawn o ganlyniad.

Bydd yr ymgynghoriad yn digwydd rhwng 29 Mai 2025 a 1 Medi 2025 ac mae ar gael yma. Rydym yn disgwyl y bydd y polisi sancsiynau diwygiedig yn cael ei roi ar waith yng ngaeaf 2025.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi sancsiynau arfaethedig ar gael yma.

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am yr HCPC

1.1 Rydym yn rheoleiddiwr gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal a sefydlwyd gan Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001. Ein rôl statudol ydy diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd

yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.[1]

1.2 Rydym yn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, gan reoleiddio 15 o broffesiynau iechyd a gofal drwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant ac ymarfer;
- cymeradwyo rhaglenni addysg y mae rhaid i weithwyr proffesiynol eu cwblhau er mwyn cofrestru gyda ni;
- cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd yn bodloni'n safonau;
- gweithredu os nad ydy gweithwyr proffesiynol sydd ar ein Cofrestr yn bodloni ein safonau; a
- gweithredu i atal ymarferwyr nad ydynt yn gofrestredig rhag defnyddio teitlau proffesiynol a ddiogelir.

1.3 Ar hyn o bryd, rydym yn rheoleiddio'r 15 proffesiwn iechyd a gofal canlynol:

- Therapyddion celf
- Gwyddonwyr biofeddygol
- Ciropodyddion / podiatryddion
- Gwyddonwyr clinigol
- Deietegwyr
- Cyflenwyr cymhorthion clyw
- Therapyddion galwedigaethol
- Ymarferwyr adrannau llawfeddygol
- Orthoptyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Ymarferwyr seicoleg
- Prosthetwyr / orthotyddion
- Radiograffwyr
- Therapyddion iaith a lleferydd

[1] Mae Erthygl 3(4) a (4A) Gorchymyn Proffesiynau Iechyd (2001) yn datgan mai amcan cyffredinol HCPC ydy diogelu'r cyhoedd ac mae'n amlinellu sut y dylid gweithredu ar yr amcan hwn.

## Yr ymgynghoriad

1.4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu barn rhanddeiliaid ynglŷn â fersiwn ddiwygiedig o'n sancsiynau[2]. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r cefndir i'r polisi yn ogystal â'r modd yr aethom ati i'w adolygu a'r newidiadau a gynigiwn..

1.5 Bydd yr ymgynghoriad o ddiddordeb arbennig i aelodau o'r cyhoedd, rhai sy'n gofrestredig gyda'r HCPC, cyrff proffesiynol, undebau, cyflogwyr, aelodau paneli Gwasanaeth Tribiwnlysoedd y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPTS), y rhai sydd wedi cyflwyno cwynion mewn achosion FTP, cynrychiolwyr cyfreithiol, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.

1.6 Bydd yr ymgynghoriad yn digwydd rhwng 29 Mai 2025 a 1 Medi 2025.

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

1.7 Mae'r ddogfen hon wedi'i threfnu fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn darparu cefndir i'n polisi sancsiynau arfaethedig
- Mae Adran 3 yn egluro ein dull adolygu
- Mae Adran 4 yn amlinellu'r newidiadau a gynigiwn
- Mae Adran 5 yn nodi ein cwestiynau ymgynghori
- Mae Adran 6 yn egluro'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad

[2] Y Polisi Sancsiynau Arfaethedig

# 2. Cefndir

2.1 Cafodd Polisi Sancsiynau'r HCPC ei gyhoeddi gyntaf yn 2004 ar ffurf y 'Polisi Sancsiynau Dynodol'. Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd polisi sancsiynau diwygiedig ('Polisi Sancsiynau 2019')[3] ei lansio i gymryd lle'r Polisi Sancsiynau Dynodol.

2.2 Nod ein polisi sancsiynau ydy amlinellu'r egwyddorion y dylai paneli eu hystyried wrth benderfynu pa sancsiwn, os o gwbl, sy'n briodol mewn achosion FTP. Y bwriad yw iddo gynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau teg, cyson a thryloyw sy'n cynnal hyder y cyhoedd a safonau proffesiynol, ac yn diogelu'r cyhoedd. Prif swyddogaeth unrhyw sancsiwn ydy amddiffyn diogelwch y cyhoedd drwy fynd i'r afael â risgiau sy'n cael eu peri gan yr unigolyn cofrestredig neu bryderon ynglŷn â hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

2.3 Mae paneli yn gwneud penderfyniadau annibynnol a rhaid iddynt asesu pob achos yn unigol. Canllaw yw'r polisi sancsiynau yn hytrach na chyfyngiad ar annibyniaeth y panel. Fodd bynnag, os bydd panel yn gwyro oddi wrth y polisi, rhaid iddynt ddarparu rhesymau clir dros wneud hynny.

2.4 Ers yr adolygiad diwethaf yn 2019, rydym wedi diweddaru ein safonau hyfedredd, [4] a'n safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg [5] ac wedi cyflwyno Nodiadau Ymarfer HCPTS newydd [6] ynglŷn ag agweddau penodol ar y broses ddyfarnu. Mae angen diweddaru ein Polisi Sancsiynau 2019 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn a datblygiadau perthnasol yn y gyfraith achosion. Mae llawer o'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i Bolisi Sancsiynau 2019 yn newidiadau i'r ieithwedd, yr arddull ac i adlewyrchu'r naws a'r dulliau cyfredol yn ogystal ag i ddarparu gwell eglurder.

2.5 Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddogfen bellach ac rydym yn ceisio adborth gan randdeiliaid ynglŷn â'r polisi sancsiynau arfaethedig.

---

[3] polisi-sancsiynau 2019.pdf
[4] Daeth y safonau hyfedredd diwygiedig i rym ar 1 Medi 2023
[5] Daeth y safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg diwygiedig i rym ar 1 Medi 2024
[6] Nodiadau ymarfer HCPTS---cyfunol.pdf. Diben Nodiadau Ymarfer ydy darparu canllawiau ynglŷn â sut y dylai paneli ymdrin â chyfaddefiadau a wneir gan unigolion cofrestredig mewn gwrandawiadau Pwyllgorau Ymddygiad a Galluogrwydd ac Iechyd mewn perthynas â honiadau ynglŷn â'u FTP.

# 3. Adolygu'r polisi

3.1 Rydym yn adolygu ein holl bolisïau o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n eglur, yn gyfredol, ac yn gyson â'r ymarferion rheoleiddio gorau ac yn parhau i gynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau teg, cymesur a thryloyw er mwy diogelu'r cyhoedd.

3.2 Ers diweddariad diwethaf ein polisi sancsiynau, rydym wedi ystyried nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys newidiadau i'r gyfraith achosion ac adborth gan randdeiliaid. Buom yn ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau allweddol megis yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), aelodau cyfarfod Fforwm Partneriaeth FTP yr HCPC, [7] y Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, [8] a phartneriaid FTP [9] . Mae eu hadborth wedi darparu gwybodaeth a dealltwriaeth gwerthfawr sydd wedi cyfrannu at ddiweddaru ein safonau, wedi ein helpu i ddatblygu ein Nodiadau Ymarfer HCPTS newydd, ac wedi dylanwadu ar ein cynigion.

3.3 Drwy'r ymgynghoriad hwn, ein nod ydy:

- sicrhau bod ein polisi sancsiynau yn parhau'n eglur, yn deg, yn addas at y diben ac yn gyfoes;
- cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau cyson, cymesur ar sail rhesymeg gan baneli FTP;
- gwella tryloywder a hyder y cyhoedd ym mhroses FTP yr HCPC; a
- cryfhau mesurau diogelu sy'n cynnal safonau proffesiynol a diogelwch cleifion.

3.4 Darperir amlinelliad o'n newidiadau arfaethedig yn yr adran nesaf.

---

[7] Mae Fforwm Partneriaeth FTP HCPC yn cynnwys cynrychiolwyr unigolion cofrestredig, cydweithwyr FTP a chynrychiolwyr o gyrff proffesiynol.
[8] Mae'r fforwm EDI yn agored i'n holl grwpiau amrywiol o unigolion cofrestredig a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid sydd ag arbenigedd mewn EDI ac sydd â phrofiad byw.
[9] Mae'r Partneriaid FTP yn cynnwys aelodau o baneli'r pwyllgor ymarfer.

# 4. Newidiadau arfaethedig

4.1 Byddwn yn adolygu ein holl bolisïau a safonau o dro i dro er mwyn sicrhau nad ydynt yn dyddio, a'u bod yn parhau'n eglur ac yn gyson â'r ymarferion rheoleiddio gorau. Bwriad y newidiadau a gynigiwn ydy gwella eglurder i baneli wrth iddynt osod sancsiynau; cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau teg a chymesur mewn achosion FTP; adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol diweddar ac adborth gan randdeiliaid allweddol; cryfhau diogelwch y cyhoedd a chynnal ymddiriedaeth yn y broses rheoleiddio.

4.2 Cyflwynir y newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

**Gorchymyn gwahardd dros dro**

4.3 Mae'r newid arfaethedig hwn yn egluro'r dull y dylai paneli ei ddefnyddio wrth ystyried gwybodaeth mewn perthynas â sancsiynau, gan sicrhau cysondeb â'r gyfraith achosion sefydledig. [10]

4.4 Mae ein newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn eglur y dylai paneli, pan fyddant yn ystyried gorchymyn gwahardd dros dro, asesu a yw'r camymddygiad a brofwyd yn dangos ymddygiad sydd yn sylfaenol anghydnaws â pharhau i fod yn gofrestredig. Os felly, ni ddylid gosod gorchymyn gwahardd dros dro ar y sail bod rhai neu'r cyfan o'r elfennau a restrir yn y polisi sancsiynau yn bresennol, ac ar y sail honno yn unig. Mewn achosion o'r fath, gallai gorchymyn diarddel fod yn angenrheidiol o hyd, os oes ei angen er mwyn diogelu'r cyhoedd a chynnal ystyriaethau ehangach mewn perthynas â budd y cyhoedd.

**C1:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro?

**Gorchymyn interim**

4.5 Mae'r newid arfaethedig hwn yn darparu canllawiau ychwanegol ynglŷn a sut y dylai paneli ystyried gorchymyn interim blaenorol unigolyn cofrestredig wrth benderfynu pa mor hir y byddai'n briodol i sancsiwn fod.

4.6 Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn eglur y gall paneli ystyried bod p'un ai yw unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim yn elfen berthnasol wrth iddynt wneud eu penderfyniad. Fodd bynnag, ni ddylai paneli fynd ati'n syml i dynnu'r amser y bu unigolyn cofrestredig dan gyfyngiadau neu

[10] PSA v NMC a Kadiatu Jalloh (2023) EWHC 3331 (Admin). Mae'r achos hwn yn amlinellu'r dull cywir y dylai paneli ei ddefnyddio wrth ystyried mewnwelediad.

waharddiad yn flaenorol dan orchymyn interim o'r sancsiwn sylweddol. [11] Dylai'r paneli asesu pob achos yn unigol, gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol. Nid newid safbwynt yw hyn, ond eglurhad er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd y bydd paneli'n ymdrin ag achosion ble mae unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun gorchymyn interim.

**C2:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion interim?

**Ymddiheuriadau**

4.7 Ym mis Medi 2024, gwnaethom gyhoeddi safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg wedi'u diweddaru, gan gyflwyno dyletswydd gryfach i fod yn agored a gonest pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le (dyletswydd gonestrwydd). [12] Mae'r safonau diwygiedig yn pwysleisio bod cynnig ymddiheuriad yn rhan allweddol o'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r safonau'n ei gwneud yn eglur hefyd mai ymddiheuro ydy'r peth iawn i'w wneud bob tro ac na ddylid ystyried hynny yn gyfaddefiad o atebolrwydd.

4.8 I adlewyrchu'r safonau hynny, rydym yn cynnig newidiadau i Bolisi Sancsiynau 2019 er mwyn cryfhau ein canllawiau ynglŷn ag ymddiheuriadau. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio cadarnhau'r egwyddor hon yn ein prosesau FTP. Rydym yn cynnig ei gwneud yn fwy eglur na fydd ymddiheuriad a gynigiwyd gan unigolyn cofrestredig, ynddo'i hun, yn cael ei drin fel cyfaddefiad o euogrwydd. Mae hynny'n gyson a'n safonau, sy'n annog unigolion cofrestredig i fod yn agored a gonest ac i ymddiheuro pan fo hynny'n briodol.

4.9 Yn benodol, rydym yn bwriadu ei gwneud yn eglur y gall ymddiheuriad fod yn elfen liniarol berthnasol wrth asesu mewnwelediad unigolyn cofrestredig a'r camau cywiro a gymer, ni ddylai paneli ei ddehongli'n awtomatig fel cyfaddefiad o gamweithredu. Yn yr un modd, ni ddylai diffyg ymddiheuriad, ynddo'i hun, gael ei ystyried yn amgylchiad sy'n gwaethygu pethau neu arwain at sancsiwn mwy llym. Rydym hefyd yn cynnig y dylid gwahanu'r canllawiau ynglŷn â mewnwelediad, edifeirwch, ac ymddiheuro er mwyn darparu gwell eglurder a sicrhau y caiff paneli sy'n gwneud penderfyniadau eu cefnogi gan ganllawiau sydd wedi'u teilwra'n well.

[11] GCD v AGA [2025] EWCA Civ 68. Mae'r achos hwn yn amlinellu na ddylai paneli ystyried 'amser a dreuliwyd' dan orchymyn interim wrth benderfynu ar hyd sancsiwn o sylwedd.
[12] [Bod yn agored a gonest pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le | Yr HCPC]

4.10 Nod y newidiadau arfaethedig hyn ydy cefnogi dull mwy cyson a theg o ystyried ymddiheuriadau wrth wneud penderfyniadau.

**C3:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag ymddiheuriadau?

**Diarddel**

4.11 Mewn ymateb i adborth gan y PSA, rydym yn cynnig diwygio'r geiriad mewn perthynas â diarddel er mwyn sicrhau gwell eglurder. Nododd y PSA y gallai'r cyfeiriad HCPC at ddiarddel fel y "sancsiwn olaf un" ym Mholisi Sancsiynau 2019 fod yn gamarweiniol, oherwydd y gallai awgrymu bod rhaid bod ymgais wedi bod i ddefnyddio sancsiynau eraill a bod hynny wedi methu cyn y gellir ystyried diarddel.

4.12 Felly, rydym yn cynnig y dylid egluro y gallai difrifoldeb y camymddwyn olygu mai diarddel yw'r unig sancsiwn priodol o'r cychwyn, heb fod angen gosod sancsiynau llai yn gyntaf. Drwy egluro hynny, nid oes newid i safbwynt polisi HCPC. Y bwriad yn hytrach ydy sicrhau y bydd paneli yn ymdrin â'r sefyllfa mewn modd priodol pan fyddant yn ystyried diarddel mewn achosion o gamymddwyn difrifol.

**C4:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â diarddel lle mae'r pryderon mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig?

**Asesu difrifoldeb a bai**

4.13 Mae'r ychwanegiad arfaethedig hwn yn darparu canllawiau pellach ynglŷn a sut y dylai paneli asesu difrifoldeb camymddygiad, gan gynnwys ystyriaethau mewn perthynas â'r risg o niwed ac â bai.

4.14 Mae'r newidiadau arfaethedig yn pwysleisio pwysigrwydd dull strwythuredig ar gyfer gwerthuso difrifoldeb, gan sicrhau bod amgylchiadau sy'n gwaethygu a rhai sy'n lliniaru yn cael eu hystyried yn llawn a'u cofnodi ym mhenderfyniad ysgrifenedig y panel. Felly, dylai paneli asesu lefel y risg a grëir gan weithredoedd yr unigolyn cofrestredig, graddfa'r bai, a'r niwed potensial neu'r gwir niwed a achoswyd. Mae'r eglurhad hwn yn cryfhau'r canllawiau presennol er mwyn cefnogi proses gwneud penderfyniadau cyson ar sail rhesymeg gadarn.

**C5:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag asesu difrifoldeb a bai?

**Gwahaniaethu**

4.15 Rydym yn cynnig y dylid ehangu ein canllawiau ynglŷn â gwahaniaethu er mwyn ei gwneud yn eglur bod pob math o wahaniaethu yn annerbyniol ac amlinellu'r gwahanol fathau o wahaniaethu er mwyn sicrhau y ceir gwybodaeth ddigonol ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir gan y rhai sy'n gofrestredig. Y bwriad yma yw darparu cyd-destun mwy eglur ynglŷn â sur y dylai paneli ymdrin â phob ffurf ar wahaniaethu.

4.16 Ym mis Ionawr 2025, gwnaethom ddiweddaru Nodyn Ymarfer HCPTS: Gwneud Penderfyniadau ynglŷn â Chyflwr Meddwl Unigolyn Cofrestredig er mwyn darparu canllawiau cliriach ynglŷn ag achosion sy'n ymwneud â honiadau o ymddygiad â chymhelliant hiliol. Mae'r diweddariad yn cynnwys cyfarwyddyd penodol ynglŷn â sut y dylai paneli ymdrin ag achosion lle'r honnir bod gweithredoedd unigolyn cofrestredig yn seiliedig ar wahaniaethu. Yn ogystal, rydym wedi ei gwneud yn eglur bod yr egwyddorion a amlinellir yn y Nodyn Ymarfer yn gymwys ar gyfer unrhyw honiadau eraill ble mae cyflwr meddwl yr unigolyn cofrestredig dan sylw, gan gynnwys achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwahaniaethol.

4.17 Felly, er cysondeb wrth i baneli asesu achosion FTP, rydym yn cynnig y dylid cynnwys canllawiau yn y polisi sancsiynau i baneli eu dilyn er mwyn deall pwy allai fod yn destun gwahaniaethu a'r gwahanol ffurfiau ar ymddygiad gwahaniaethol sydd yn annerbyniol. Bwriad y newid arfaethedig hwn ydy darparu amddiffyniad cydnerth i bawb, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chydweithwyr, sydd yn destun gwahaniaethu.

**C6:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â phryderon am wahaniaethu?

**Anonestrwydd**

4.18 Rydym yn cynnig y dylid ehangu ein canllawiau i'w gwneud yn haws asesu sut gallai gweithredoedd anonest unigolion cofrestredig effeithio ar ymddiriedaeth neu beri niwed, gan arwain at benderfyniadau mwy cyson ar sail mwy o wybodaeth mewn achosion difrifol. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn darparu mwy o wybodaeth i baneli ynglŷn â sut i asesu anonestrwydd unigolion cofrestredig mewn achosion FTP.

**C7:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag anonestrwydd?

### Camymddygiad â chymhelliant rhywiol

4.19 Rydym hefyd wedi cryfhau ein canllawiau i baneli mewn perthynas â chamymddygiad â chymhelliant rhywiol a'u gwneud yn fwy eglur. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys camymddygiad â chymhelliant rhywiol yn benodol er mwyn sicrhau bod y canllawiau yn cynnwys bwriad yr unigolyn cofrestredig yn ogystal â natur yr ymddygiad. Nod y newid arfaethedig hwn ydy darparu gwell amddiffyniad i'r cyhoedd a chefnogaeth fwy eglur i baneli wrth iddynt asesu achosion o'r fath. Drwy ei gwneud yn eglur bod rhaid asesu'r ymddygiad â'r cymhelliant sy'n sail i'r ymddygiad, bydd y cynnig yn helpu i sicrhau asesiadau teg, cyson a chadarn mewn achosion FTP.

**C8:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chamymddygiad â chymhelliant rhywiol?

### Ffiniau proffesiynol

4.20 Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno adran newydd ynglŷn â ffiniau proffesiynol. Mae hynny er mwyn sicrhau y rhoddir sylw priodol i bryderon ynglŷn ag unigolion cofrestredig yn cynnal perthnasoedd proffesiynol â defnyddwyr gwasanaethau Mae'r newid arfaethedig hwn i'r polisi sancsiynau yn cadarnhau pwysigrwydd cynnal safonau proffesiynol ac yn sicrhau y bydd paneli yn deg wrth iddynt asesu achosion.

4.21 Yn ddiweddar, rydym wedi diweddaru ein safonau[13] sydd wedi'u hymgorffori yn ein Nodiadau Ymarfer. Ym mis Medi 2024, gwnaethom gyflwyno Nodyn Ymarfer HCTPS newydd ar Ffiniau proffesiynol er mwyn darparu canllawiau i gefnogi paneli mewn achosion sy'n ymwneud â mynd y tu hwnt i ffiniau proffesiynol. Y bwriad yma ydy sicrhau ymdriniaeth gyson a theg a darparu eglurder ynglŷn â sut i werthuso pryderon sy'n gysylltiedig â ffiniau proffesiynol.

4.22 Byddai'r ychwanegiad arfaethedig yn sicrhau bod ein polisi sancsiynau yn gyson â'n safonau a'n nodiadau ymarfer. Bydd hyn yn helpu paneli i weithredu dull strwythuredig ar sail rhesymeg gadarn wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â ffiniau proffesiynol.

---

[13] Safonau hyfedredd a Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg.

**C9:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â ffiniau proffesiynol?

**Gwelliannau strwythurol a golygyddol**

4.23 Rydym yn cynnig y dylid gwneud rhai mân-newidiadau strwythurol a golygyddol i'r ddogfen bolisi i'w gwneud yn fwy eglur ac yn haws ei deall. Er enghraifft, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno gwell esboniad ynglŷn â lle mae sancsiynau'n ffitio yn y broses FTP a rôl tystiolaeth a chyflwyniadau. Rydym hefyd wedi gwneud pethau'n fwy eglur yn ein canllawiau ar gyfer euogfarnau troseddol, rhybuddion troseddol a'n canllawiau ar amodau ymarfer.

4.24 Rydym hefyd yn cynnig y dylid gwella'r mynegbostio yn y ddogfen drwy wneud mwy o ddefnydd o isbenawdau. Bydd y rhain yn helpu i wahaniaethu'n eglur rhwng elfennau allweddol a geir yn y ddogfen polisi sancsiynau megis mewnwelediad, edifeirwch ac ymddiheuro a'r rhesymau dros osod sancsiwn, ymhlith eraill.

4.25 Bydd y newidiadau arfaethedig yn cynorthwyo paneli i wneud penderfyniadau cyson, cymesur ar sail rhesymeg . Bydd y newidiadau arfaethedig yn gwella llif cyffredinol y ddogfen a pha mor ddarllenadwy ydyw, gan sicrhau bod yr egwyddorion allweddol a'r canllawiau yn hawdd eu deall a'u rhoi ar waith.

**C10:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y newidiadau strwythurol a golygyddol yn eglur?

**Sylwadau cyffredinol am ein newidiadau arfaethedig**

**C11:** I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'n polisi sancsiynau yn gyffredinol?

**C12:** A oes unrhyw newidiadau pellach i'r Polisi Sancsiynau y dylem eu hystyried?

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**C13:** Ydych chi'n meddwl bod y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau neu unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf

Cydraddoldeb 2010 a’r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon?

**C14:** A oes unrhyw gamau ychwanegol y dylem eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw’r newidiadau arfaethedig yn rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais yn anfwriadol?

# 5. Cwestiynau ymgynghori

5.1 Byddem yn croesawu eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddwch cystal â rhoi eich atebion i'r cwestiynau canlynol, ynghyd â'ch rhesymeg pan fo modd. Does dim angen i chi ateb pob cwestiwn petai'n well gennych beidio.

**C1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion gwahardd dros dro?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C2. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â gorchmynion interim?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C3. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag ymddiheuriadau?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C4. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â diarddel lle mae'r pryderon mor ddifrifol eu bod yn anghydnaws â pharhau'n gofrestredig?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C5. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag asesu difrifoldeb a bai?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C6. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â phryderon am wahaniaethu?**

*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C7. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn ag anonestrwydd?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C8. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chamymddygiad â chymhelliant rhywiol?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C9. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â ffiniau proffesiynol?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C10. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y newidiadau strwythurol a golygyddol yn eglur?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb.

**C11. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'n polisi sancsiynau yn gyffredinol?**
*Cytuno'n gryf/ Cytuno/ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno/ Anghytuno/ Anghytuno'n gryf/ Ddim yn gwybod*
Byddwch cystal â rhoi rhesymau dros eich ateb, gan gynnwys eich barn ynglŷn â sylwedd y newidiadau.

**C12. A oes unrhyw newidiadau pellach i'r Polisi Sancsiynau y dylem eu hystyried?**

**C13. Ydych chi'n meddwl bod y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau neu unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig [14] dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon [15] ?**

Os felly, rhowch fanylion.

**C14. A oes unrhyw gamau ychwanegol y dylem eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r newidiadau arfaethedig yn rhoi unrhyw grwpiau dan anfantais yn anfwriadol?**

[14] Oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodasau a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

[15] https://www.equalityni.org/Legislation

# 6. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

6.1 Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 1 Medi 2025. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

6.2 Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- Ar-lein, drwy gwblhau ein harolwg ar-lein hawdd-ei-ddefnyddio: www.hcpc-uk.org/sanctions-policy-survey.
- Drwy e-bost: consultation@hcpc-uk.org.
- Drwy ysgrifennu atom yn

*Ymgynghoriad ar Bolisi Sancsiynau diwygiedig*
*Adran Polisi a Safonau*
*Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)*
*Park House*
*184 Kennington Park Road*
*Llundain*
*SE11 4BU*

6.3 I wneud cais am gopi o'r dogfennau hyn mewn fformat amgen neu os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, cysylltwch â ni drwy e-bostio consultation@hcpc-uk.org.

6.4 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddeall yr effaith y gallai ein cynigion ei chael ar grwpiau a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr ymatebion hefyd yn darparu gwybodaeth i ni ac yn ein galluogi i ddiweddaru ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y polisi sancsiynau, a byddwn yn cyhoeddi hynny.

# 7. Y Camau Nesaf

7.1 Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion y byddwn wedi'u derbyn. Wedyn byddwn yn cyhoeddi dogfen yn rhoi manylion y sylwadau a dderbyniwyd ac yn egluro'r penderfyniadau y byddwn wedi'u cymryd o ganlyniad, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau pellach y bydd eu hangen. Bydd hon ar gael ar ein gwefan.

7.2 Bydd y polisi sancsiynau wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi a rhoddir gwybod amdano i'n rhanddeiliaid.

7.3 Unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi, byddwn yn parhau i wneud newidiadau'n ddi-oed i'r polisi sancsiynau lle bo angen, er enghraifft i adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith achosion. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y byddwn yn cynnal adolygiad trylwyr ac yn ceisio barn rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae hynny'n gyson â'n hymdriniaeth ag adolygu ein safonau yn achlysurol.